Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing



Adroddiad Hunan-Arfarniad 2016/17

Y Fframwaith Hunan-arfarniad a'r Prif Nodweddion

Mae bod a Fframwaith Hunan-arfarniad gadarn, sy'n ganolog i brosesau cynllunio busnes strategol a threfniadau llywodraethol eraill, nid yn unig yn arferiad allweddol i unrhyw fusnes llwyddiannus, ond mae hefyd yn un o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru trwy Gylchlythyr RSL 02/15 'Egwyddorion craidd hunanwerthuso i'w defnyddio gan Gymdeithasau tai wedi'u Cofrestru yng Nghymru'.

Yn ystod 2014/15 fe fuddsoddwyd yn helaeth i fynd i'r afael â chreu Fframwaith Hunan-arfarnu bwrpasol ar gyfer Grŵp Cynefin fyddai'n sicrhau model fyddai'n gosod atebolrwydd clir, ynghyd â ffocws corfforaethol ar berfformiad a gwelliant parhaus, byddai hefyd yn cydymffurfio â gofynion y Cylchlythyr.

Yn syml, roedd pedwar prif nodwedd yn greiddiol wrth sefydlu Fframwaith Hunan-arfarniad Grŵp Cynefin, wedi ei seilio ar ymarferion gorau, sef:

- Bod gan yr hunan-arfarnu ffocws corfforaethol cryf a chyson ar draws y sefydliad: Bod y sefydliad yn gorfforaethol wedi sefydlu ac yn gyrru hunan-arfarnu fel y brif elfen sy'n greiddiol i'r trefniadau llywodraethu, a chynllunio strategol/ariannol oferôl.
- Bod gan hunan-arfarnu sail dystiolaeth eang a chadarn: Bod yr hunan-arfarniadau wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn sydd yn deillio o ystod eang o ffynonellau, a bod egwyddorion ymarfer da yn cael eu gosod fel rhan o'r arfarniadau unigol hynny.
- Bod hunan-arfarniadau yn amodol ar sialens fewnol ac allanol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau: Bod y deilliannau o hunan-arfarniadau yn cael eu herio a'u profi yn fewnol o fewn y sefydliad, ac yn allanol.
- Bod hunan-arfarniadau yn rhan allweddol o drefniadau gynllunio corfforaethol a fframwaith rheoli perfformiad eraill: Bod y deilliannau o'r hunan-arfarniadau yn cael eu defnyddio'n amserol ac yn effeithiol i gefnogi cynllunio corfforaethol ac ariannol, cynllunio gweithlu ac yn cefnogi diwylliant o ddysgu ar draws y sefydliad.

Mae trefniadau Grŵp Cynefin i hunan-arfarnu wedi ei ddatblygu i ystyried y prif nodweddion yma.

Felly prif egwyddorion y Fframwaith Hunan-arfarnu yw:

- Gosod cyfrifoldeb cychwynnol am hunan-arfarniadau i aros ar y lefel gwasanaeth gweithredol, h.y. gyda'r Rheolwyr Gwasanaeth
- Atebolrwydd o berfformiad y gwasanaeth yn aros ar y lefel hynny sy'n allweddol i'r canfyddiadau'r hunan-arfarniadau
- Barn broffesiynol gychwynnol o anghenion gwasanaeth, cyfleon, risgiau a gofynion adnoddol i'r dyfodol hefyd yn aros ar y lefel gwasanaeth gweithredol a fydd hefyd yn ffurfio prif elfennau canfyddiadau'r hunan-arfarniadau
- Cyfrifoldeb am sicrhau bod y canfyddiadau ar y cyd yn greiddiol i dystiolaeth hunan-arfarniad gadarn a disgyblaeth ymgysylltu hefyd yn aros ar y lefel gwasanaeth gweithredol.

Yn ystod Ionawr 2017, fe gyflwynwyd dull diwygiedig a gwell o reoleiddio tai gan Gangen Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar egwyddorion y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi eu Chofrestru yng Nghymru a gyflwynwyd yn 2011. Mae'r elfennau allweddol o'r Fframwaith gwreiddiol yn parhau, megis:

- *Y bydd tenantiaid wrth wraidd y trefniadau rheoleiddio o hyd, gyda'r dull newydd yn cynnig gwell atebolrwydd a thryloywder i denantiaid a rhanddeiliaid eraill*
- *Ni fydd egwyddorion sylfaenol y Fframwaith Rheoleiddio – cymesuredd, bod yn dryloyw ac yn agored, cysondeb a hyrwyddo dysgu a datblygu – yn newid*
- *Y bydd y dull rheoleiddio yn parhau i fod ar sail cyd-reoleiddio.*

Fel rhan o'r pecyn o welliannau, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio'r canlyniadau cyflawni gan bennu safonau perfformiad newydd. Bydd y safonau perfformiad yn adlewyrchu'r dull gweithredu diwygiedig a byddant yn rhoi ffocws llawer cryfach ar brosesau gwneud penderfyniadau, arweinyddiaeth a hyfywedd ariannol cymdeithasau tai. Bydd y safonau yn fwy cyson a'r ffordd y mae cymdeithasau tai effeithiol yn rhedeg eu busnes mewn gwirionedd.

Mae'r dull gweithredu diwygiedig yn rhoi ffocws ar welliant parhaus a barn glir gan y rheoleiddiwr. Bydd gofyniad newydd ar gymdeithasau i baratoi datganiad blynyddol o gydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad a bennir gan Lywodraeth Cymru, a bydd ffocws rheoleiddio ar risgiau strategol, ynghyd â mwy o ffocws ar lywodraethu da, yn benodol ar y ffordd y caiff y Bwrdd sicrwydd bod ei brif gyfrifoldeb, sef sicrhau bod y Gymdeithas yn cael ei rhedeg yn dda, yn cael ei gyflawni'n llawn ac yn briodol[1]*.*

Bydd Grŵp Cynefin yn cwblhau'r datganiad cydymffurfiaeth yn erbyn y Safonau Perfformiad ac yn eu cyflwyno i Fwrdd Rheoli Mehefin (neu ynghynt os cadarnheir dyddiad ein hasesiad rheoleiddio i fod ynghynt).

Mae'r safonau perfformiad arfaethedig wedi bod trwy broses ymgynghoriad â'r sector, a hyd ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad, nid ydym wedi cael canlyniad y broses ymgynghori, na derbyn copi o'r safonau perfformiad terfynol. Serch hynny, ni ragwelir y bydd newidiadau mawr i'r safonau. Fe gylchredwyd copi o'r ddogfen ymgynghorol y safonau perfformiad ag aelodau Bwrdd Grŵp Cynefin trwy e-bost ar y 10/02/17, ond gweler copi hefyd yn Atodiad 1 o'r Adroddiad.

[1] Dogfen 'Dull Diwygiedig a Gwell o Reoleiddio Tai' Llywodraeth Cymru

Y Broses

Adroddwyd i'r Bwrdd Rheoli ar y 19/10/16 ar gamau gweithredu ac amserlen cwblhau'r broses hunan-arfarniad mewn cydberthynas â'r broses gynllunio busnes ehangach, oedd yn cynnwys:

- ✓ Pob Rheolwr Gwasanaeth i gwblhau Datganiadau Sefyllfa o'u gwasanaethau erbyn canol Hydref 2016

- ✓ Proses o ddilysu'r wybodaeth ynghyd ag adborth i'r rheolwyr unigol Hydref - Rhagfyr 2016

- ✓ Cyflwyniad o'r prif gasgliadau ynghyd â throsolwg o weithrediad y broses i gyfarfod o'r Tîm Arweinyddiaeth 5 Ionawr 2017

- ✓ Cyflwyniad o'r prif gasgliadau ynghyd â throsolwg o weithrediad y broses i gyfarfod o'r Grŵp Rheolwyr ar y 25 Ionawr 2017

- ✓ Digwyddiad Cynllunio Busnes i aelodau'r Byrddau Rheoli, aelodau'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau, aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Grŵp Rheolwyr ar y 27 Chwefror 2017 gyda'r ffocws ar graffu a herio'r prif gasgliadau'r gwasanaethau. Fe fynychwyd y digwyddiad gan 38 person: 15 aelod Bwrdd (Grŵp ac is-gwmnïau) ac aelodau'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau, 6 aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth, a 17 Rheolwr Gwasanaeth. Fe wnaeth pob un rheolwr wneud cyflwyniad llafar, ynghyd â darparu datganiadau trosolwg perfformiad ysgrifenedig oedd yn cynnwys:
  - Trosolwg o berfformiad eu gwasanaethau
  - Beth oedd sail y casgliadau (h.y. pa dystiolaeth?)
  - Beth oedd y llwyddiannau
  - Beth oedd y meysydd gwella

  Byddwn yn cyflwyno trosolwg o gasgliadau'r holiadur barn yn dilyn y digwyddiad yn fuan, ynghyd â sut byddwn yn ymateb i unrhyw sylwadau i sicrhau gwelliant parhaus.

- ✓ Cyflwyniad o'r adroddiad hunan-arfarniad am gymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli 22 Mawrth 2017 Cynnwys gwybodaeth am ein canlyniadau ar ein safle we, a thrwy'r cylchlythyr i denantiaid 'Calon' yn Ebrill 2017.

- ✓ Cyflwyniad o'r Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gwasanaeth Rheoleiddio Llywodraeth Cymru i Fwrdd Rheoli Mehefin 2017 am gymeradwyaeth, ac yna i'r Rheolwr Rheoleiddio fydd yn sail i'w hasesiad rheoleiddio a gynhelir oddeutu mis Gorffennaf (i'w gadarnhau).

Canlyniadau Trosolwg

Fel eglurwyd uchod, roedd angen i bob rheolwyr gwasanaeth gynnal ymarfer hunan-arfarniad o'u gwasanaethau yn ystod misoedd yr haf 2016 yn seiliedig ar egwyddorion y Fframwaith, gan gwblhau Datganiad Sefyllfa ar sail naratif. Roedd tri rhan i'r Datganiadau Sefyllfa, megis:

1. Perfformiad Cyfredol;
2. Cynllunio a Datblygu;
3. Arddangos Prif Egwyddorion Hunan-arfarnu.

Adroddir trwy'r adroddiad yma ar brif ganlyniadau'r broses hunan-arfarniad y gwasanaethau yn unol â'r nodau strategol, sef:

Cartrefi o Safon:	Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy o safon uchel sydd yn diwallu anghenion lleol
Gwasanaethau Rhagorol:	Byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn gyson ar draws y grŵp
Gwella Bywydau:	Byddwn yn darparu cymorth a chyfleoedd i bobl
Cynnal Cymunedau:	Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol a bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol
Rheoli'n Effeithiol:	Byddwn yn arddangos yr arferion arweinyddiaeth, llywodraethu a rheolaeth gorau fel grŵp

O ymatebion y rheolwyr gwasanaeth, roedd hi'n braf iawn nodi fod pob un o'r gwasanaethau yn glir sut oeddent yn cyfrannu tuag at weithredu'r nodau ac amcanion strategol, boed hynny'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, ac roedd esiamplau a thystiolaeth ar gael i gefnogi hynny.

Cartrefi o Safon

Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy o safon uchel sydd yn diwallu anghenion lleol

Beth oedd ein perfformiad?

Mae Grŵp Cynefin yn darparu amrediad o gartrefi fforddiadwy o safon uchel i ddiwallu anghenion lleol ac yn cydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol o fewn ein hardal weithredu i ddatblygu cynlluniau anghenion cyffredin, ynghyd â chynlluniau gofal ychwanegol ar gyfer yr henoed.

Cafwyd blwyddyn brysur yn ystod 2015/16, gan gwblhau **58 tŷ newydd yn erbyn targed o 50**, a sicrhau rhaglen i brynu a datblygu dros 100 o dai ychwanegol fel rhan o gyrraedd ein targed o 250 dros 5 mlynedd, ac erbyn 2020. Llwyddwyd i wireddu y rhaglenni grantiau tai sirol yn llawn gyda'r gweithgaredd datblygu hwn. Dechreuwyd ar ddatblygu ein **4ydd cynllun gofal ychwanegol**, sef 40 uned yn Hafod y Gest, Porthmadog, ac mae'r cynllun £8.5m yn mynd rhagddo'n dda, ac ar darged i'w gwblhau o fewn cyllideb. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus i weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol pellach - sef cynllun gwerth £11m 'Pentre Canol', sydd yn cynnwys 52 o fflatiau, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl gyda dementia, 8 uned byw'n annibynnol ar gyfer pobl gydag anableddau a 14 fflat ar gyfer pobl hyn gydag anghenion cyffredinol.

Rydym yn rheoli neu'n rhan-berchen **900 o gartrefi canolraddol** ar draws 7 sir ein hardal weithredu, ac yn ystod 2015/16 fe wnaeth y Tîm gyrraedd y targedau i wario arian grant cymdeithasol (unedau rhent canolraddol/Cymorth Prynu ag achub morgais) a Phartneriaeth Tai Cymru o ran prynu unedau rhent canolraddol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein heiddo, ac mae rhaglen adnewyddu bresennol mewn lle fydd yn sicrhau cyrraedd **Safon Ansawdd Tai Cymru** erbyn Mawrth 2018. Cynhaliwyd 660 archwiliad cyflwr eiddo yn ystod 2015/16 i hwyluso hynny. Ar ddiwedd blwyddyn 2015/16, adroddwyd wrth ein Bwrdd Rheoli, ac i Lywodraeth Cymru bod ein heiddo yn cydymffurfio yn llawn a'r Safon o ran y cydrannau isod:

- Toeau ac elfennau cysylltiedig
- Ffenestri
- Drysau allanol
- Ceginau
- Systemau gwres canolog
- Systemau trydanol
- Synwyryddion mwg wedi eu pweru o'r prif gyflenwad trydan
- Gerddi a mannau storio

Adroddwyd hefyd bod y canrannau cydymffurfio o ran y cydrannau isod fel a ganlyn:

- Ystafelloedd Ymolchi - 71 %
- Sgôr Ynni (SAP) - 88 %

O gydnabod am y 'methiannau derbyniol' (megis aros nes bydd yn amserol adnewyddu cydrannau), yna ar ddiwedd 2015/16, gallem asesu ein bod ar drothwy cydymffurfio â'r Safon, gyda rhaglen yn ei lle i ddileu methiannau derbyniol erbyn Mawrth 2018.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ym Mawrth 2016 o'r trefniadau mewn lle i fesur cyrhaeddiad Safon Ansawdd Tai Cymru, a chafwyd barn o 'Sicrwydd Rhesymol'.

Cartrefi o Safon

Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy o safon uchel sydd yn diwallu anghenion lleol

Beth oedd ein llwyddiannau?

Un o'r llwyddiannau mwyaf oedd cyrraedd a rhagori ar y targed datblygu yn ystod y flwyddyn, gan lwyddo i wireddu rhaglenni datblygu sirol. Mae'r llwyddiannau eraill yn cynnwys:

- Trafodaethau am gynlluniau pecyn ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd
- Trafodaethau blaen-bryniant tiroedd ar gyfer eu datblygu at y dyfodol
- Trafodaethau i sefydlu prosiect Cynllun Tai Lleol Gwynedd efo Cyngor Gwynedd, sef model o ddatblygu tai fforddiadwy heb fod yn ddibynnol ar grantiau tai arferol.
- Cynnig gwasanaeth Rightmove i ymgeiswyr
- Enwebu ymgeiswyr cymwys i ddatblygwyr ar gyfer unedau tai fforddiadwy
- Cydweithio gyda'r Cynghorau Sir i ddatblygu cynigion ar gyfer gwella a chysoni'r cofrestrau tai fforddiadwy
- Gweithredu rhaglen o adnewyddu a gwella ein heiddo gwerth £3.6m oedd yn cynnwys ychwanegiad o 50 % ar ganol y flwyddyn.

Sut allwn wella?

Dyma a flaenoriaethwyd fel y prif fannau gwella, fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adran ar gyfer 2017/18:

- Casglu bodlonrwydd tenantiaid gyda'u cartrefi newydd
- Arbrofi gyda mwy o ddulliau adeiladu arloesol
- Parhau i gynnwys cymalau buddion cymunedol o fewn cytundebau adeiladu, ond cryfhau'r neges i gontractwyr i sicrhau gwell canlyniadau.
- Sefydlu banc tir fydd yn sicrhau digon o safleoedd ar gyfer y dyfodol i wrthsefyll cystadleuaeth datblygu gan eraill.
- Gwella'r system gofrestru Cartrefi Fforddiadwy ar gyfer darpar ymgeiswyr.
- Cynhyrchu adroddiadau o'r system i gyfrannu at siapio natur datblygiadau
- Datblygu Cynllun Cyfathrebu a Marchnata ar gyfer Cartrefi Fforddiadwy.

Gwasanaethau Rhagorol

Byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn gyson ar draws y grŵp

Beth oedd ein Perfformiad?

Yn ystod 2015/16 cynhaliwyd **ad-drefniad o'r gwasanaethau** i gwsmeriaid mewnol ac allanol oedd yn golygu newidiadau i'n ffordd o weithio. Roedd y newidiadau yma'n cynnwys ffurfio Tîm Lles newydd gyda'r nod o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r tenantiaid hynny oedd yn wynebu effeithiau'r Rhaglen Budd-daliadau Lles.

Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn system rheolaeth dai newydd, **'ActiveH'**, sydd yn cael ei ddarparu gan 'MIS active management', fydd yn disodli'r ddwy system dai presennol ag etifeddwyd oddiwrth y ddwy gymdeithas dai wrth uno. Prif nod y buddsoddiad yma yw gwella ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n partneriaid, lle mae'r targed cwblhau 'Ffes 1' wedi ei ddiwygio nawr i fod erbyn Tachwedd 2017.

Gwelwyd bod perfformiad cyffredinol y prif wasanaethau craidd yn ystod 2015/16 wedi bod yn dda, gyda rhan helaeth o'r canlyniadau perfformiad wedi dangos gwelliant pellach o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Yn benodol:

- Yn ystod cyfnod o newid mewnol a dylanwadau allanol, rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cynnal lefelau da o gasglu incwm rhent, ac wedi sicrhau 80% o incwm y Gymdeithas (£16.7m) trwy daliadau rhent. Roedd canran y dyledion rhent yn ystod 2015/16 yn 2.19% o'r holl incwm, yn erbyn targed o 2%, ac mae'r perfformiad wedi parhau yn dda yn ystod 2016/17.
- Gosodwyd 338 eiddo ond roedd y perfformiad yn siomedig gan gymryd cyfartaledd o 32 diwrnod i osod (yn erbyn targed o 21 yr adeg hynny, sydd bellach wedi ei ddiwygio i 25 diwrnod drwy benderfyniad y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau). Mae'r perfformiad wedi gwella ers y cyfnod yma yn ystod 2016/17
- Bu i ni ddelio a 432 o achosion gwrth gymdeithasol gyda 100% wedi eu delio gydag o fewn y targedau ymateb. Materion ymddygiad gwrth gymdeithasol mwyaf yw niwsans sŵn, niwsans anifeiliaid a niwsans cyffredin ar yr ystâd. Derbyniwyd 4 cwyn swyddogol ar faterion ymddygiad gwrth gymdeithasol, i gyd wedi eu delio gydag yn ystod Cam 1 o'r Polisi Cwynion.
- Yn y cyfnod rhwng Ionawr - Mawrth 2016, gwelwyd fod y Tîm Lles wedi cynorthwyo 69 o denantiaid gan roi enillion budd-dal lles parhaus gwerth £104,975 y flwyddyn iddynt fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau. Mae'r buddion wedi parhau yn ystod 2016/17
- Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth am ein tenantiaid, ac rydym gyda phroffil wybodaeth ar gyfer 90% o'n tenantiaid
- Rydym wedi ateb 95% o alwadau i'r Tim Gwasanaeth Cwsmer, sydd yn cymharu'n well na chymhariaeth genedlaethol - ac wedi ateb 89% o fewn 30 eiliad, sydd eto'n cymharu'n well na chymhariaeth genedlaethol.
- Yn ystod 2015/16, codwyd 38,866 gorchymyn gwaith, lle'r oedd 44% ar gyfer gwaith archwilio a gwasanaethu, 37% ar gyfer gwaith trwsio, 10% ar gyfer adnewyddu a gwelliannau.
- Cwblhawyd 94% o'r gwaith trwsio o fewn y flaenoriaeth amser, gyda'r diwrnodau cyfartalog cwblhau gwaith yn 8 diwrnod.
- Mae lefelau bodlonrwydd ein tenantiaid yn parhau yn uchel ar 98% waith trwsio

Mae'r **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** yn hanfodol bwysig i ganfod barn tenantiaid am ein gwasanaethau a chynyddu atebolrwydd y Gymdeithas fod tenantiaid yn ganolog i bopeth a wnawn. Gwelwyd yn ystod 2015/16 fod y gwahanol grwpiau wedi cyfarfod yn rheolaidd, gan gynnwys:

- Y Grŵp Cynnal a Chadw i adolygu cardiau bodlonrwydd gwaith trwsio, taflen cyddwysiad, Cod Ymddygiad Contractwyr a chynnwys y Llawlyfr Tenantiaid

Gwasanaethau Rhagorol

Byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn gyson ar draws y grŵp

- Y Grwp Cyhoeddiadau i adolygu'r newyddlen i denantiaid 'Calon' ac wedi penderfynu ar gysyniad a chynnwys calendr
- Tenant Archwilwyr/Safonau Gwasanaeth lle canolbwyntiwyd ar y Safon Gwasanaeth Gwaith Addasiadau Grwp Cynefin, Taflen Cydnabyddiaeth Gwaith Cynnal a Chadw, a Safon Gwasanaeth Ymddygiad Contractwyr.
- Panel Recriwtio - mae tenantiaid wedi derbyn hyfforddiant i fod yn aelodau o banel recriwtio staff newydd Grwp Cynefin
- Y Gweithgor Cyfranogiad Tenantiaid wedi adolygu cynnydd y tîm Mentrau Cymunedol yn erbyn y Strategaeth, ac wedi cyfrannu i'r broses o ethol 3 tenant newydd i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau
- Wedi cymeradwyo 27 grant cymunedol gwerth £11,240 ar draws Gogledd Cymru
- Wedi datblygu Llais Cynefin - grŵp newydd fydd yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori ar bolisïau, ayb
- Wedi lansio Cylchlythyr Staff i hybu gwaith y tîm.
- Wedi ymweld â 28 stad deuluol yn ein gwibdaith yn ystod 2015/16 ar y thema 'Byw yn Iach', lle llwyddwyd i siarad gyda 52% o'n tenantiaid lle bydd y canlyniadau a'r wybodaeth yn bwydo i weithgareddau 'Iechyd a Lles' yn ystod 2016/17
- Grantiau Camau i Gyflogaeth wedi ei lansio lle mae gwerth £855 o grantiau wedi eu rhoi i gefnogi ein tenantiaid i waith
- Cynhadledd Pobl Hyn wedi ei gynnal i gynyddu sgiliau yn y meysydd digidol i geisio osgoi unigrwydd, lle gwnaeth 70 fynychu, a 57% wedi mynegi diddordeb mewn cadw cysylltiad gyda ffrindiau newydd drwy 'Cyswllt a Chlic'.

Beth oedd ein llwyddiannau?

Un o'r prif lwyddiannau yn ystod 2015/16 oedd ad-drefnu'r gwasanaethau gyda'r egwyddor o sefydlu trefn swyddogion tai/cynnal a chadw generig o fewn ardaloedd penodol i feithrin perthynas agos gyda'r tenantiaid, i ddod i'w hadnabod yn dda, iddynt ymddiried ynom i'n galluogi i'w cynorthwyo ac i'n galluogi i ddarparu gwasanaeth cyflawn o safon uchel. Mae'r ad-drefnu hefyd wedi golygu bod timau arbenigol fod wedi eu sefydlu, megis y Tîm Lles, ac mae'r deilliannau buan o'r gwasanaeth yma yn rhagorol sydd yn cyfrannu'n helaeth at wneud gwahaniaeth i fywydau llawer o'n tenantiaid. Mae llwyddiannau eraill yn cynnwys:

- Cynnal lefelau incwm mewn cyfnod o newid a dylanwadau sylweddol allanol lle gwelwyd y diwygiad lles ac effaith newidiadau fel y dreth ystafell wely a'r credyd cynhwysol uniongyrchol yn effeithio 12.33% o'n tenantiaid. Er y llwyddiant, rydym yn rhagweld newidiadau pellach yn creu her gynyddol i ni fod yn cynnal ein lefelau rhent yn ystod 2016/17 a thu hwnt
- Cynnal lefelau perfformiad a bodlonrwydd uchel
- Darparu Gwasanaeth Cwsmer Canolog o 4 swyddfa mewn ymateb i ymholiadau aml-ddull. Mae'r Tîm wedi cychwyn monitro ansawdd galwadau er mwyn sicrhau cysondeb a herio arferion presennol, ac wedi llwyddo i ryddhau y Rheolwr i fod yn datblygu'r system dai newydd.
- Gweithgareddau Cyfranogiad, a chynnal Prosiectau'r Tîm Mentrau Cymunedol

Sut allwn wella?

Dyma a flaenoriaethwyd fel y prif fannau gwella, fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adrannau ar gyfer 2017/18:

- Rheoli Eiddo Gwag yn effeithiol i ail-osod eiddo o fewn y targed o 25 diwrnod
- Cynnal lefelau incwm gan sicrhau ein bod yn rheoli cyfrifon rhent yn effeithiol gan roi gwybodaeth a chefnogaeth addas i'n tenantiaid

Gwasanaethau Rhagorol

Byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn gyson ar draws y grŵp

- Datblygu trefniadau i fod yn tystiolaethu bodlonrwydd ein tenantiaid yn well.
- Datblygu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau 'lean' i roi arweiniad cadarn i'r swyddogion i gael cysondeb ar draws yr ardal weithredol a pharatoi at ActiveH
- Llunio Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer a chynllun gweithredu addas i sefydlu'r model Gwasanaeth Cwsmer MPathy+, gan anelu at dderbyn achrediad a safon gwasanaeth cwsmer rhagorol maes o law.
- Sefydlu system monitro gwaith y Tîm Mentrau Cymunedol
- Adeiladu capasiti a chynyddu cyfranogiad o fewn ein grwpiau tenantiaid presennol
- Datblygu rhaglen iechyd a lles i'n tenantiaid
- Datblygu mentrau cymdeithasol HWB Dinbych a'r Wardeiniaid Ynni

Gwella Bywydau

Byddwn yn darparu cymorth a chyfleoedd i bobl

Beth oedd ein Perfformiad?

Mae Grwp Cynefin yn darparu *'mwy na thai'*, a mwy na gwasanaethau landlord i gymunedau ar draws gogledd Cymru. Ar y 1af Gorffennaf 2015 fe wnaeth asiantaethau Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych uno yn ffurfiol a dod yn is-gwmni i Grŵp Cynefin. Fe wnaeth Asiantaethau Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn hefyd uno ac adleoli i un swyddfa ganolog, sydd yn cael eu rheoli gan ein his-gwmni Canllaw. Prif nod y ddau uniad oedd galluogi darparu mwy i'n cleientiaid am lai, ac i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i ganiatáu i bobl hyn fyw yn annibynnol yn eu cartrefi.

Roedd y broses gyfreithiol o **uno Gorwel a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd** hefyd ar waith yn ystod 2015/16 le bydd yr uniad wedi ei ffurfioli erbyn 1af Ebrill 2017. Gwelwyd buddion y cyd-weithio agos y bu rhwng y ddwy asiantaeth yn ystod 2015/16 lle gwelwyd y gwasanaeth blaenllaw 'Caring Dads' yn ehangu i Wynedd am y tro cyntaf.

Fe wnaeth Gorwel hefyd lwyddo i ennill tendr am brosiect Cymorth Symudol Pobl Hŷn yn Ynys Môn ar gyfer 460 o ddefnyddwyr gwasanaeth i ddarparu cymorth fel bo'r angen yn gysylltiedig â'r cartref i bobl 55 oed a hyn i fyw mor annibynnol ag y bo modd.

Mae elfennau o'r Tîm Mentrau Cymunedol hefyd yn cyfrannu at wireddu'r amcan strategol yma, ac unwaith eto, gellir gweld bod 2015/16 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus, lle mae modd tystiolaethu bod y gwasanaeth wedi cyfrannu'n helaeth i wneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth.

Er yr holl waith uno, adleoli a datblygu gwasanaethau, gwelwyd bod y gwasanaethau craidd fod wedi eu cynnal ym mhob un o'r gwasanaethau ar draws y grŵp, a bod y perfformiad wedi bod yn dda, gyda sawl targed wedi ei rhagori, yn cynnwys:

Perfformiad Asiantaeth **Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych** wedi bodloni meini prawf gofynion cyllido Llywodraeth Cymru ac wedi cyflawni'r deilliannau yn unol â'r Cynllun Gweithredu 2015/16. "Fe wnaeth yr Asiantaeth fodloni a goresgyn mwyafrif ei gwaelodlinau perfformiad a'r safonau gofynnol gyda pheth cynnydd pellach ers llwyddiannau 2014/15. Ymddengys na chafodd proses uno'r Asiantaeth, a reolwyd yn dda, unrhyw effaith andwyol ar y perfformiad yn 2015/16"

Bu perfformiad Asiantaeth **Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn** hefyd wedi cyfarch a rhagori ar holl ddisgwyliadau a gofynion cyllido Llywodraeth Cymru. Adroddwyd gan Gofal a Thrwsio Cymru "the agency has in all areas exceeded the expectations of WG funding and a positively embraced merger has succeeded to some degree in seamlessly maintaining a strong service base and good local partnerships. The level of innovation and orientation to the growing Health and Housing Agenda is commendable" .

- Er gwaethaf gwynebu torriadau cyllidol, a mynd trwy broses o newid aruthrol o uno gyda Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd, mae Gorwel wedi gallu cynnal y gwasanaethau heb ddirywiad i berfformiad a/neu niferoedd y gwasaneithir, ac hyd yn oed wedi bod yn llwyddiannus mewn ennill cytundebau ar gyfer gwasanaethau newydd hefyd, wedi derbyn estyniad i brosiectau eraill, ac wedi tyfy gwasanaethau mewn ardaloedd. Mae'r adolygiad ar Gorwel gan y comisiynwyr hefyd wedi datgan bodlonrwydd uchel gyda safon y ddarpariaeth y gwasanaethau.

- Mae'r Tîm **Tai â Chefnogaeth** hefyd wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau a darparu lefel gwasanaeth dda mewn cyfnod heriol o newidiadau allanol. Mewn cyfnod ansefydlog o ail-fodelu gwasanaethau (cynlluniau tymor byr a thai i bobl hŷn), mae'r tîm wedi gweithio'n galed i gefnogi tenantiaid trwy'r newidiadau.

Gwella Bywydau

Byddwn yn darparu cymorth a chyfleoedd i bobl

Beth oedd ein llwyddiannau?

- Yr is-gwmniau wedi uno'n llwyddiannus, ac adleoli i un swyddfa ganolog, heb effaith andwyol ar y gwasanaethau, y rhanddeiliaid na'r staff
- Yr is-gwmniau wedi parhau i gyflawni gwasanaethau effeithiol a rhagorol er gwaethaf yr ansicrwydd ac aflonyddwch
- Swyddog Maes Canllaw wedi ei lleoli o fewn y 'Tîm Ffordd Gwynedd' yn Ysbyty Alltwen – yr unig gynrychiolydd 3ydd Sector o fewn tîm cymysg o weithwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Y Tîm Tai a Chefnogaeth wedi cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o Awdurdodau Lleol, Asiantau Rheoli, Gorwel a thenantiaid yn ystod cyfnod ansicr o ail-fodelu oedd yn cynnwys darparu llety â chefnogaeth i gyn-filwyr bregus yng Nghonwy – ein cynllun cyntaf yn y Sir.
- Prosiect yr Hafod ar y cyd â Hwb Dinbych yn ennill gwobr 'UK Housing Awards'
- Cynllun Bus Stop – Wedi ymestyn y prosiect i Ynys Môn a Gwynedd ac wedi cynnal 64 sesiwn digidol wedi ei gwblhau, ynghyd â 32 sesiwn Iechyd a Lles, gyda cyfanswm o 612 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan
- Hwb Dinbych – 60 heb gymhwyster presennol wedi mynyhu cyrsiau addysg bellach; dros 3000 o bobl wedi mynychu syrsiau; 68 wedi cael mynediad at waith; dros 12 o asiantaethau yn gweithio allan o Hwb Dinbych yn wythnosol; sefydlu Grŵp Cyflogaeth Dinbych
- Cyfanswm o 26 cymhwyster cyfatebol i TGAU gradd C i 26 o bobl Ifanc, bregus
- Grant Camau i Gyflogaeth- Grŵp Cynefin wedi ei lansio yn ystod 2015/16 ac wedi cefnogi grantiau gwerth £855 i gefnogi ein tenantiaid mewn i waith
- Prosiect Wardeiniaid Ynni – Dros 1507 o ymweliadau 1:1 wedi eu cwblhau, 487 o geisiadau 'Warm Home Discounts' gwerth £68k, ac un o'n Wardeiniaid Ynni wedi derbyn y wobr 1af 'National Energy Action Cymru' yng nghystadleuaeth 'Heat Hero 2016' dros Brydain. Hefyd wedi ehangu'r prosiect i Gonwy.
- Prosiect Digartrefedd Ieuenctid – 26 person ifanc bregus wedi ennill cymhwyster 'Housemate' yn Sir Conwy, a 5 person ifanc bregus oedd yn wynebu digartrefedd wedi derbyn hyfforddiant 'Renting Ready' fydd yn eu paratoi i fyw yn annibynnol. 4 o denantiaid yr Hafod wedi cwblhau cymhwysterau trwy brosiect 'Onwards and Upwards'.
- Ennillwyd gwobr Ymgyrch y Flwyddyn yng Ngwobrau Tai Cymru am ddatblygu gêm fwrdd addysgiadol i godi ymwybyddiaeth am ddigartrefedd ymysg bobl Ifanc. Mae'r gêm bellach yn cael ei defnyddio yn Iwerddon, yr Alban a De Cymru.

Sut allwn wella?

Dyma a flaenoriaethwyd fel y prif fannau gwella, fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adrannau ar gyfer 2017/18:

- Bydd yr is-gwmniau yn trafod ac yn adolygu meysydd posib ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd, fydd yn arwain at arbedion costau potensial y dyfodol
- Cynnal gwasanaethau ar draws y grŵp er gwaethaf yr ansicrwydd allanol
- Adolygu gwasanaethau tai gwarchod a thai gofal ychwannegol
- Adolygu gweithdrefnau a phrosesau y Tîm Tai a Chefnogaeth i gyd-fynd gyda'r Polisiau ac i baratoi ar gyfer ActiveH
- Adolygu Strwythur Rheoli a Staffio Gorwel
- Datblygu strategaeth cyhoeddusrwydd a marchnata Gorwel
- Cynyddu dylanwad defnyddwyr ar reaolaeth dydd i ddydd gwasanaethau Gorwel trwy dderbyn barn i siapio gwasanaethau.
- Datblygu Mentrau cymdeithasol yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, Hwb Dinbych, cynllun Wardeiniaid

Cynnal Cymunedau

Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol a bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol

Beth oedd ein Perfformiad?

Mae Grŵp Cynefin yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, a grwpiau trydydd sector a gwirfoddol i gyrraedd anghenion unigol cymunedau ar draws ein hardal weithredu.

Yn ystod 2015/16, fe wnaeth Grŵp Cynefin arwain y trafodaethau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r Parc Cenedlaethol Eryri i sicrhau pecyn ariannol i sefydlu gwasanaeth **Hwylusydd Tai Gwledig** (HTG) rhanbarthol ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru. Mae'r Tîm bellach yn ei le sydd yn cynnwys 3 swyddog sydd yn gweithio gyda partneriaid lleol i asesu'r angen am dai o fewn ein cymunedau, sydd yn cyfrannu i gynnal cymunedau i'r dyfodol mewn ardaloedd lle mae prisiau tai yn uchel a stoc tai fforddiadwy yn fach.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi datblygu **Strategaeth Buddsoddi Cymunedol** fydd yn arwain ein cyfraniad i'r dyfodol o ran cefnogi a hwyluso gweithgareddau adfywio a datblygu cymunedol ehangach o dan faner 'mwy na thai'.

Yn ystod 2015/16 fe wnaeth Grŵp Cynefin brynu gwerth £25,000 o gyfranddaliadau mewn cynllun darparu ynni glân i dai lleol – ynni wedi ei gynhyrchu gan cynllun trydan dŵr arloesol uwchlaw rhaeadr Pont Ogwen, cynllun lle gellir efallai defnyddio elw'r cynllun trydan dŵr i leihau biliau trydan ein tenantiaid a phreswylwyr eraill. Bydd y cynllun **Ynni Ogwen** yn arbed tua 245 tunell o CO^2 y flwyddyn rhag cael ei ollwng i'r amgylchedd, a disgwylir iddo gynhyrchu elw o £450,000 dros yr 20mlynedd nesaf – arian a gaiff ei ail-fuddsoddi yn y gymuned a phrosiectau amgylcheddol lleol.

Mae elfennau o'r Tîm **Mentrau Cymunedol** hefyd yn cyfrannu at wireddu'r Strategaeth Buddsoddi Cymunedol, ac unwaith eto, bu 2015/16 yn flwyddyn lwyddiannus, lle mae modd tystiolaethu bod y gwasanaeth wedi cyfrannu'n helaeth i gefnogi cymunedau. Un o'r llwyddiannau oedd derbyn cadarnhad gan y loteri bod cais ariannol £1.1m wedi bod yn llwyddiannus i ddatblygu prosiect Gorsaf **Gallt Melyd** yn fenter cymdeithasol, fydd yn cefnogi busnesau bach lleol a chreu 4 swydd newydd o fewn y tîm. Mewn datganiad i'r wâsg, dywedodd Rob Pickford, aelod o Gronfa Loteri Fawr Cymru a chadeirydd CAT2 y rhaglen bwyllgor: "Mae'r rhaglen yn helpu cymunedau Cymru i fod yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy drwy eu cynorthwyo i dderbyn a datblygu asedau a gwella eu hardaloedd. Drwy helpu i drosglwyddo asedau i sefydliadau mentrus sydd o fudd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, rydym yn y pen draw yn helpu mwy o bobl i elwa o'u hasedau cymunedol lleol, cynhyrchu incwm lleol a chyflogaeth."

Yn ystod 2015/16 daeth rheolaeth y **Ganolfan Fenter Congl Meinciau** i'r Tîm Adfywio a Chynaladwyedd Grŵp Cynefin, ac yn ystod 2015/16, fe apwyntiwyd staff i weithio'n uniongyrchol o'r Ganolfan. Canlyniad hyn fu cynnydd yn neiliadaeth unedau'r Ganolfan o 50% i 91%, drwy fod â phresenoldeb cyson, a thrwy well marchnata. Cynhaliwyd Adolygiad Strategol o'r Ganolfan Fenter, a gwelwyd ddeilliannau bositif, gan gynnwys canlyniadau cyflogaeth ers Tachwedd 2011, lle dangoswyd dangos bod y cwmnïau sydd wedi lleoli yn y Ganolfan ers Tachwedd 2011 wedi cyflogi 39 o swyddi uniongyrchol yn yr adeilad. Dangosodd ymchwil ym Mis Mehefin 2015 bod mwy na 70 o swyddi lleol ym Mhen Llŷn wedi bod yn gysylltiedig â gweithgareddau'r cwmnïau oedd yn gweithio yn Congl Meinciau. Mae'r ffigyrau yma yn dangos bod y Ganolfan felly wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol mewn ardal wledig ac ymylol fel Pen Llyn.

Beth oedd ein llwyddiannau?

- Cynorthwyo gyda phrosiectau lleol e.e. i ddatblygu parc chwarae, datblygu ardal wyrdd mewn partneriaeth gyda'r Dref Werdd, Amgueddfa Dinbych, Siop Griffiths ayb

Cynnal Cymunedau

Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol a bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol

- Cynorthwyo ac eistedd ar dros 22 o bwyllgorau a grwpiau cymunedol i gynnig cymorth arbenigol, trefnu gweithgareddau, ysgrifenyddol a chyfieithu.
- Bod yn llwyddiannus yn y cais i ddatblygu Cynllun Gallt Melyd
- Creu Tîm HTG Rhanbarthol ynghyd a chyllid i'w gynnal drwy partneriaieth newydd.
- Cwblhau cynllun Pant yr Eithin, Harlech (i Grŵp Cynefin) yn ystod 2015/16, cynllun Llangoed yn Ynys Môn (i Gymdeithas Tai Gogledd Cymru), a chynllun Bryn Du, Ynys Môn (eto i Grŵp Cynefin) gyda chymorth yr HTG.
- Codi deiliadaeth Canolfan Fenter Congl Meinciau lle mae rhaglen o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ei le.
- Cefnogi Cynllun Ynni Ogwen

Sut allwn wella?

Dyma a flaenoriaethwyd fel y prif fannau gwella, fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adrannau ar gyfer 2017/18:

- Monitro deilliannau cymunedol ac ymchwilio i feddalwedd newydd
- Creu bwydlen ar gyfer y gwasanaethau mae'r Tîm Hwyluswyr Tai Gwledig yn ei gynnig ac ail ystyried y deunydd/fformat adroddiadau
- Sicrhau cyllid HTG o 2017 ymlaen
- Casglu adborth y defnyddwyr gwasanaeth HTG
- Gwell marchnata Canolfan Congl Meinciau
- Sicrhau bodlonrwydd tenantiaid presennol y Ganolfan Fenter

Rheoli'n Effeithiol

Byddwn yn arddangos yr arferion arweinyddiaeth, llywodraethu a rheolaeth gorau fel grŵp

Beth oedd ein Perfformiad?

Gellir gweld fod y gwasanaethau canolog, sydd oll yn cyfrannu tuag at wireddu'r amcan strategol yma, wedi perfformio'n dda, er gwaethaf blwyddyn hynod brysur ynghyd â rhai gyda swyddi gwâg o fewn eu timoedd. Mae'r gwasanaethau canolog yn cwmpasu'r Adrannau y Prif Weithredwr, â Gwasanaethau Busnes (Cyllid, Adnoddau Dynol, a Systemau Gwybodaeth).

Dyma rhai esiamplau o berfformiad y timoedd:

- Cwblhawyd y Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn yn llawn, a mynegodd 100% o'r rhai cafodd archwiliad mewnol ar eu gwasanaethau bod yr archwiliad wedi bod yn fuddiol i guynnig sicrwydd nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn bodoli
- Cynhaliwyd arolwg barn ar ein rhanddeiliaid drwy arweiniad David Hedges, lle mynegwyd bod Grŵp Cynefin, ar y cyfan, yn effeithiol wrth gyfathrebu a gwneud cyswllt gyda'r rhanddeiliaid
- Cynhaliwyd drefn arfarnu Byrddau rheoli'r Grŵp oedd yn cynnwys trefn arfarnu'r aelodau yn unigol, ar y cyd fel Bwrdd, ac oedd yn cynnwys trefn arfarnu'r Cadeirydd. Roedd casgliadau'r broses yn bwydo i ddatblygu Cynllun Olyniaeth Grŵp, Cynllun Hyfforddi a Datblygu'r Aelodau, Cynllun Recriwtio a Chynllun Gwella Llywodraethu
- Datblygu a ffurfioli Rheolau Ariannol cyfredol ar gyfer y Grŵp
- Datblygu trefn gyfrifo ar sail FRS, gan sicrhau bod cyfrifon rheoli a gwasanaethau cyllidol eraill yn cael ei ddarparu ar amser.
- Sicrhau Polisiau Yswiriant digonol ar gyfer y Grŵp
- Wedi adolygu Polisi Rheolaeth Trysorlys a sicrhau hyfywdra ariannol effeithiol
- Canlyniadau Holiadur Bodlonrwydd Staff yn nodi fod 90% o staff yn parhau yn fodlon/fodlon iawn gyda Grŵp Cynefin fel cyflogwr (er wedi gostwn o 100% yn 2014)
- Canlyniadau canran Salwch Staff Grŵp Cynefin yn cynharu'n dda gyda cyfartaledd cenedlaethol
- Holiadur staff wedi dangos bod staff ar y cyfan yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth SG
- Argaeledd systemau SG wedi bod yn dda (sef ebost, system ffôn, cronfeydd data. Cysylltiadau rhwng swyddfeydd a'r we).

Beth oedd ein llwyddiannau?

- Sefydlu Strategaeth Gyfathrebu ynghyd â Chynllun Cyfathrebu a Ceidwaid Cyfathrebu ar draws y Grŵp
- Derbyn barn o 'Lywodraethu Cryf' yn ein Hasesiad Rheoleiddio ym Mai 2016, lle mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud ers hynny i sefydlu Cynllun Olyniaeth, Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Bwrdd, Cynllun Recriwtio a chyflawniad Cynllun Gwella Llywodraethu
- Cyrraedd y Côd Llywodraethu yn llawn lle eglurwyd y camau i'r mannau a cyrrhaeddwyd yn rhannol.
- Penodi Cyfieithydd mewnol
- Sefydlu trefn hunan-arfarniad gwasanaethau oedd yn sail i'r trefniadau cynllunio busnes a'r farn rheoleiddio
- Wedi paratoi Cyfrifon Statudol yn sgil newidiadau FRS
- Darparu gwasanaethau ychwannegol mewn ymateb i uno Gorwel a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd, a sefydlu Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Wedi gwneud gwell defnydd o'r systemau cyfrifoadurol cyllid
- Wedi cwblhau gweithredu yr ail-strwythuro staff ar draws Grŵp Cynefin yn dilyn yr uno sydd wedi bod yn hanfodol ar gyfer gallu cyrraedd amcanion strategol a chynnal safon darpariaeth gwasanaeth y Gymdeithas
- Wedi datblygu, cyflwyno a gweithredu proses newydd arfarnu perfformiad staff
- Gosod system logio galwadau/Desg Gymorth Systemau Gwybodaeth
- Arwyddo cytundeb gyda Mis yn dilyn gwaith trylwyr i ddewis system tai newydd

- Wedi cwblhau 3 prosiect symud swyddfa yn ystod y flwyddyn

Sut allwn wella?

Dyma'r a flaenoriaethwyd fel y prif fannau gwella, fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adrannau ar gyfer 2017/18:

- Cryfhau'r atebolrwydd llywodraethu a chorfforaethol rhwng y rhiant gwmni â'r is-gwmniau (a Gorwel) trwy fonitro'r cytundebau lefel gwasanaeth yn chwarterol
- Datblygu trefn canfod barn defnyddwyr y gwasanaeth canolog (lle briodol)
- Adolygu'r drefn Cwynion
- Cynnal asesiad iechyd ar y maes Gwarchod Data
- Parhau i ddatblygu'r drefn Hunan-arfarnu
- Datblygu'r systemau cyfrifadurol presennol ymhellach i sicrhau defnydd effeithiol gyda'r system dai newydd
- Datblygu canllawiau ar gyfer cadw'r Cofrestr Asedau a Rhwymidigaethau yn gyfredol
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Datblygu a Hyfforddi staff
- Cytuno a defnyddio Fframwaith Ymddygiadau ar gyfer rheolwyr a gweddill y staff
- Buddsoddi mewn bas data adnoddau dynol
- Cysoni polisiau, prosesau a systemau Adnoddau Dynol
- Marchnata Grŵp Cynefin fel cyflogwr drwy fynychu ffeiriau gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau lleol
- Cynyddu capasiti'r tîm SG
- Newidiadau i'r isadeiledd cadw data
- Sicrhau llwyddiant y prosiect ActiveH
- Adolygu a gweithredu newidiadau i'n isadeiliedd cadw data

Y Camau Nesaf

Mae'r Digwyddiad Cynllunio Busnes a gynhaliwyd ar y 27 Chwefror 2017 eisoes wedi ystyried ac wedi craffu ar gasgliadau'r broses hunan-arfarnu'r gwasanaethau, a bydd y Tîm Arweinyddiaeth, ynghyd â'r Grŵp Rheolwyr yn mynd ati yn awr i flaenoriaethu'n 'mhellach gan ddod i gasgliadau pendant am amcanion strategol 2017-18, ynghyd â blaenoriaethau fydd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol yr Adrannau.

Bydd y Cynllun Corfforaethol 2017-20 draft yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Rheoli Mawrth 2016 am gymeradwyaeth, ynghyd â Cynlluniau Busnes yr Is-gwmniau a Gorwel.

Mae'n ddisgwyliad ar i Gymdeithasau Tai, trwy Gylchlythyr RSL02/15 "Egwyddorion Craidd Hunanwerthuso gan Gymdeithasau tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru" fod yn cyhoeddi eu hunan-arfarniadau, ac byddwn yn gwneud hynnyar ein safle we.

Nid oes rheidrwydd arnom i rannu ein hadroddiad hunan-arfarnu bellach gyda'r Rheolwr Rheoleiddio, yn hytrach, byddwn yn cwblhau'r Datganiad Cydymffurfiaeth (fel a gyfeiriwd ati yn gynharach yn yr adroddiad) ar ôl derbyn cymeradwyaeth Bwrdd Rheoli Mehefin 2017.

Helen Wyn Jones
Rheolwr Llywodraethu a Chydymffurfio
10fed Mawrth 2017